# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**CYP(3) 05-08(p.2): 10 Ebrill 2008**

## Ymchwiliad y Pwyllgor i'r Cynllun Gweithredu Rhianta

### Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2007, cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad craffu a fyddai'n canolbwyntio ar Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rhianta ym mis Rhagfyr 2005 ac mae'n cynnwys y tair blynedd 2005-06 i 2007-08. Bwriad y Cynllun yw sicrhau bod rhieni (mamau, tadau a gofalwyr) yn cael y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, drwy nodi beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei wneud i rieni hyd at fis Mawrth 2008.

### Cylch gorchwyl arfaethedig

Dylai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar graffu ar y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud i gynorthwyo rhieni a gwneud argymhellion ar y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn parhau i gynorthwyo rhieni.

Wrth wneud hynny, bydd y pwyllgor yn:

1. Craffu ar y broses o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Rhianta (Rhagfyr 2005-Mawrth 2008);

2. Craffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i barhau â'i waith ar rianta a'r adnoddau sydd ar gael i wneud hynny;

3. Casglu tystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a hefyd o ran pa gamau y dylid eu cymryd i ddatblygu'r agenda.

### Argymhelliad

Bod y pwyllgor yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl arfaethedig, y llythyr ymgynghori drafft yn Atodiad A a'r rhestr arfaethedig o ymgynghorwyr yn Atodiad B.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2008**

## Atodiad A

### Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

### Llythyr ymgynghori arfaethedig

Annwyl Gydweithiwr

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth i'w ymchwiliad byr i Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rhianta ym mis Rhagfyr 2005. Bwriad y Cynllun oedd sicrhau bod rhieni (mamau, tadau a gofalwyr) yn cael y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt drwy nodi beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei wneud i gynorthwyo rhieni hyd at fis Mawrth 2008. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: Cynllun Gweithredu Rhianta: Cefnogi mamau, tadau a gofalwyr sy'n magu plant yng Nghymru

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn yw:

1. Craffu ar y broses o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Rhianta (Rhagfyr 2005-Mawrth 2008);

2. Craffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i barhau â'i waith ar rianta a'r adnoddau sydd ar gael i wneud hynny;

3. Casglu tystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a hefyd o ran pa gamau y dylid eu cymryd i ddatblygu'r agenda.

### Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Gwahoddir partïon sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener 20 Mehefin 2008 fan bellaf. Os yn bosibl, dylech ddarparu copi electronig ar ffurf MS Word neu Rich Text Format, naill ai drwy e-

bost i equality.comm@wales.gsi.gov.uk neu ar ddisg.

Dechreuwch eich cyflwyniad drwy roi ychydig o wybodaeth am eich sefydliad cyn nodi eich barn a'ch profiad o ran rhai o'r meysydd canlynol.

### 1. Y broses o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Rhianta

Pa mor effeithiol oedd y broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn eich barn chi?

A yw'r cymorth sydd ar gael i rieni wedi cynyddu?

A yw rhieni yn cael mwy o wybodaeth, ac a gaiff rhianta cadarnhaol ei hyrwyddo'n effeithiol?

A yw rhieni'n cyfrannu mwy at gynllunio gwasanaethau ac mewn ysgolion?

A ydych yn ymwybodol o rwystrau y bu'n rhaid i rieni eu hwynebu wrth geisio defnyddio gwasanaethau cymorth a ffynonellau gwybodaeth? Beth yw'r rhesymau allweddol dros y rhwystrau hyn?

A allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o arferion arloesol wrth sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth, a'i bod yn bosibl goresgyn rhwystrau?

### 2. Parhau â'r gwaith ar rianta

Beth yw'r materion allweddol o ran rhianta y mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael â hwy o hyd yn eich barn chi?

### 3. Beth sydd wedi gweithio, a beth nad yw wedi gweithio?

A ydych yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o arfer da o ran cynorthwyo rhieni? A yw'n bosibl i chi eu nodi, ac egluro pam y mae'r enghreifftiau hyn wedi llwyddo?

A yw'n bosibl i chi nodi unrhyw feysydd o fewn y Cynllun Gweithredu Rhianta a gyflwynwyd yn llwyddiannus, ac unrhyw rai na lwyddodd yn eich barn chi? Pam y llwyddwyd yn y meysydd hyn a pham na lwyddwyd?

Mae'r pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai a enwir ar y rhestr ddosbarthu amgaeedig. Fodd bynnag, **byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi eu cynnwys ac a allai fod diddordeb ganddynt mewn cyfrannu at yr adolygiad.** Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r pwyllgor ei thrin fel eiddo'r pwyllgor unwaith y caiff ei chyflwyno iddo. Bwriad y pwyllgor yw rhoi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, ac efallai y cânt eu hargraffu gyda'r adroddiad yn dilyn hyn. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef.

Os bydd cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd yn flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ei chyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol nad yw'n addas i'w datgelu'n gyhoeddus yn eich barn chi, dylech nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a darparu dadl resymol i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y pwyllgor a'i ymchwiliad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-cyp-home.htm

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

# Atodiad B

### Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

### Ymchwiliad i Gynllun Gweithredu Rhianta

### Ymgynghorwyr

Cadeiryddion Pwyllgorau Plant Awdurdodau Lleol
Cadeiryddion, Cynghorau Iechyd Cymuned
Comisiynydd Plant Cymru

Cyfarwyddwyr Addysg
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg
Cyrff Llywodraethu Ysgolion
Undeb y Mamau yng Nghymru
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
Penaethiaid Gwasanaethau Plant
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau GIG
Sefydliadau Gwirfoddol

(yn cynnwys: Barnardos Cymru, Cynhalwyr Cymru, Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin (CYCA), Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd, Plant yng Nghymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Fathers Direct, NCH Cymru, NSPCC Cymru, One Parent Families/Gingerbread Cymru, Parentline Plus, Chwarae Cymru, Achub y Plant Cymru, Shelter Cymru, SNAP Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (Cymru), Rhwydwaith Maethu Cymru, Voices from Care (Cymru), Cymorth i Fenywod, Cyswllt Ieuenctid Cymru)

Swyddogion Hawliau Plant

**Undebau'r Athrawon**
**Y Ddraig Ffynci**